**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 16 Medi 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| D H Hopkins | A S Lewis | R V Smith |
| A H Stevens | M Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E J King

---

## 36. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol â Chofnod 46 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol” a dywedodd ei fod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

Datganodd y Cynghorydd L S Gibbard gysylltiad personol â Chofnod 46 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol” a gadawodd cyn y drafodaeth.

Datganodd y Cynghorydd M Thomas gysylltiad personol â Chofnod 46 “Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol”.

## 37. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021.

**38. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**39. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**40. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**41. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1af 2021/22**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad am fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys pob ansicrwydd materol, a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodir ym mharagraffau 2.7 a 3.2.

3) Anogir cyfarwyddwyr i barhau i geisio lleihau gorwariant gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod bod y gyllideb gyffredinol yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd dim ond drwy ddibynnu'n drwm ar ad-daliad tebygol (ond ymhell o fod yn sicr) gan Lywodraeth Cymru, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a ddelir yn ganolog, ond hefyd i gydnabod bod y gorwariant bron yn gyfan gwbl oherwydd pwysau parhaus COVID a ragwelir yn gyffredinol.

**42. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 2021/22**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2021/22.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

Caiff canlyniadau perfformiad Chwarter 1 2021/22 eu cymeradwyo a'u defnyddio i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

**43. Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau adroddiad a oedd yn gofyn am awdurdod i gyhoeddi Adolygiad Cydraddoldeb Blynyddol y cyngor ar gyfer 2020/21 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad i'w gyhoeddi.

## 44. Cynyddu nifer y lleoedd a gynlluniwyd ar gyfer Ysgol Pen-y-Bryn.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a oedd yn manylu ar ganlyniad cyfnod yr hysbysiad statudol ac yn ceisio cadarnhad ar gyfer y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd cynlluniedig yn Ysgol Arbennig Pen-y-bryn. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cynyddu lleoedd cynlluniedig yn Ysgol Pen-y-Bryn o 31 i gyfanswm o 195 o leoedd, ar 1 Ionawr 2022.

2) Cynnwys yr arian refeniw dirprwyedig ychwanegol i gefnogi sefydlu'r lleoedd cynlluniedig ychwanegol hyn yn Ysgol Pen-y-bryn a'r costau cludiant ychwanegol posib sy'n gysylltiedig â hyn yn nyraniadau cyllidebau refeniw cyffredinol presennol addysg a rhai'r dyfodol.

## 45. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar fersiwn ddrafft Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg (CSGA) statudol ar gyfer 2022-2032.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.

## 46. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Sgiliau Gydol Oes:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Brynmill | Y Cyng. Peter May |
| 2. | Ysgol Gynradd Danygraig | Y Cyng. Joe Hale |
| 3. | Ysgol Gynradd Gendros | Y Cyng. Mike Durke |
| 4. | Ysgol Gynradd y Gors | Mrs Teresa Phipps<br>Mr Ceri Powe |
| 5. | Ysgol Gynradd Pen-y-Fro | Y Cyng. Louise Gibbard |
| 6. | Ysgol Gynradd Penclawdd | Mrs Susan Phillips |
| 7. | Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff | Mr Joseph Blackburn |
| 8. | Ysgol Gynradd y Trallwn | Y Cyng. Yvonne Jardine<br>Mrs Helen May |
| 9. | Ysgol Gynradd Waunarlwydd | Y Cyng. Wendy Lewis |
| 10. | Ysgol Gyfun Gellifedw | Mr Nigel Morris<br>Mr Simon Bott |

## 47. Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Achos Busnes y Campysau Gwyddorau Bywyd, Lles a Chwaraeon.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo achos busnes Campysau Gwyddorau Bywyd, Lles a Chwaraeon Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac i awdurdodi ei gyflwyniad ffurfiol yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig i sicrhau cymeradwyaeth ariannol y Fargen Ddinesig.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo Achos Busnes Campysau Gwyddorau Bywyd, Lles a Chwaraeon Bargen Ddinesig Bae Abertawe (**Atodiad 1**) a'i gyflwyniad ffurfiol, yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargen Ddinesig i Lywodraethau Cymru a'r DU;

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r achos busnes y gallai fod yn ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;

3) cymeradwyo'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â darpariaeth y cyngor o gyllid cynnar i'r prosiect wrth aros i dderbyn arian y fargen ddinesig ar gost adennill ymylol yn unig a grantiau awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 i gwblhau unrhyw gyllid neu gytundebau ariannol perthnasol.

## 48. Adolygiad o'r Polisi Gamblo.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar gyfer fersiwn ddrafft y Polisi Gamblo diwygiedig, ar gyfer y cyfnod Ionawr 2022 tan Ionawr 2025, i'w gyflwyno at ddiben ymgynghori.

1) Cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi Gamblo'r cyngor.

2) Cytuno ar y polisi diwygiedig a'i gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyn adrodd yn ôl i'r cyngor er mwyn ei fabwysiadu.

**49. Strategaeth Ailfodelu Canol Dinas Abertawe.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe, sy'n darparu dadansoddiad o'r rhagolygon manwerthu a hamdden presennol a strategaeth ar gyfer cadarnhad a, lle bo angen, ailbwrpasu unedau manwerthu at ddibenion buddiol eraill. Roedd yr adroddiad yn gofyn am awdurdodiad i ddilyn y strategaeth yn unol â'r cynllun gweithredu cysylltiedig er mwyn nodi opsiynau cyflenwi priodol, ffynonellau ariannu a dechrau ymgynghori ar yr ymyriadau arfaethedig.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe fel y nodir yn Atodiad 1: Strategaeth Adolygu ac Ailbwrpasu Manwerthu a Hamdden Canol Dinas Abertawe.

2) Caiff yr ymyriadau arfaethedig a amlinellir yn Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe ac ym mharagraffau 7-9 o'r adroddiad hwn eu cymeradwyo mewn egwyddor, a dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu i nodi'r llwybr cyflawni mwyaf addas. Mae angen cymeradwyaeth bellach gan y Cabinet cyn gweithredu unrhyw un o'r ymyriadau arfaethedig.

3) cymeradwyo'r cyllid o £500,000 a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith ar Stryd Rhydychen i'r camau gweithredu ehangach a amlinellir yn yr adroddiad a bod unrhyw ofynion cyllidebol pellach wedi'u nodi ar gyfer penderfyniadau ar wahân ac yn y dyfodol yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a rheolau'r RhGA ac wedi'u cefnogi gan yr achos busnes priodol.

**50. Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 51. Strategaeth Ailfodelu Canol Dinas Abertawe

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad “er gwybodaeth” ar Strategaeth Ailbwrpasu Canol Dinas Abertawe, sy'n darparu dadansoddiad o'r rhagolygon manwerthu a hamdden presennol a strategaeth ar gyfer cadarnhad a, lle bo angen, ailbwrpasu manwerthu at ddibenion buddiol eraill.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.48 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | (Add Welsh Month) |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, ??? |
| Penderfyniad yn dod i rym: | |